



Treth Ar Werth

Trosglwyddo busnes fel busnes byw

Cais i drosglwyddo rhif cofrestru

Pwysig

- Mae'n rhaid i chi llenwi'r ffurflen hon os ydych am gadw rhif cofrestru'r perchennog blaenorol. **Mae'n rhaid i chi hefyd llenwi ffurflen VAT 1** (a ffurflen VAT 2 os yw'r perchennog newydd yn bartneriaeth). Mae'n rhaid i'r perchennog blaenorol **beidio** â llenwi ffurflen VAT 7 i ddadgofrestru. Unwaith bod trosglwyddiad y rhif cofrestru wedi ei ganiatáu, ni ellir ei dirymu.
- Mae'r amodau y mae'n **rhaid** i chi a'r perchennog blaenorol gytuno arnynt i'w gweld ar y ffurflen gais ac maent yn gyfreithiol rwymol. Mae hyn yn golygu y byddwch yn atebol am unrhyw TAW sydd heb ei thalu o gofrestrriad y perchennog blaenorol. Ni fydd y perchennog blaenorol bellach â hawl i unrhyw ad-daliadau TAW neu dreth fewnbwn sydd heb eu hawlio, hyd yn oed os yw'r symiau hyn yn ymwneud â chyfnodau cyn neu ar ôl y trosglwyddo.
- Os yw'n berthnasol, rhaid i'r perchennog blaenorol ganslo unrhyw Ddebyd Uniongyrchol y mae wedi'i drefnu i dalu ei Ffurflenni TAW ar-lein. Os yw'n ofynnol i chi dalu'r dreth sy'n codi o'ch Ffurflen TAW yn electronig efallai yr hoffech drefnu cyfarwyddyd Debyd Uniongyrchol. Gallwch gael mynediad at hyn drwy'r gwasanaeth TAW ar-lein ar wefan CThEM.
- Er mwyn cyfyngu mynediad i'r rhai sydd â hawl i fwrw golwg dros ddata a sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei diogelu, lle defnyddiodd y perchennog blaenorol gyfrifydd (neu asiant) ar gyfer Gwasanaethau Ar-lein TAW, **rhaid** i chi naill ai:
 - rhoi gwybod i CThEM yn ysgrifenedig gyda'r ffurflen hon, yn ddelfrydol, ond cyn pen 21 diwrnod o'r dyddiad y llofnodwyd y ffurflen hon fan bellaf, eich bod yn bwriadu defnyddio cyfrifydd y perchennog blaenorol, neu
 - gwneud yn siŵr bod y perchennog blaenorol a'r cyfrifydd yn cymryd camau bwriadol i ganslo mynediad y cyfrifydd at Wasanaethau TAW Ar-lein.

Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen hon a'i llofnodi, anfonwch hi i:

BT VAT
HM Revenue and Customs
BX9 1WR

Bydd y nodiadau canlynol yn eich helpu i lenwi'r ffurflen hon. Cofiwch fod yn rhaid llenwi'r ddwy ran o'r ffurflen - y rhan gyntaf gan y perchennog newydd a'r ail ran gan y perchennog blaenorol.

Pwy all ofyn i rif gael ei drosglwyddo?

Os ydych yn cymryd busnes drosodd fel busnes byw, neu'n newid statws eich busnes (er enghraifft o unig berchennog i gwmni cyfyngedig, neu bartneriaeth), gallwch, os ydych yn dymuno, wneud cais i rif cofrestru TAW y perchennog blaenorol gael ei drosglwyddo i chi.

Pryd i ofyn i rif cofrestru gael ei drosglwyddo

Gallwch ofyn i rif gael ei drosglwyddo os:

- nad ydych eisoes wedi eich cofrestru ar gyfer TAW, **ond**
- y byddwch naill ai'n agored neu'n gymwys i gofrestru o'r dyddiad y trosglwyddir y busnes i chi, **ac**
- y bydd cofrestriad y perchennog blaenorol wedi ei ganslo o'r dyddiad hwnnw - os yw'r perchennog blaenorol yn dal yn agored i gael ei gofrestru, ni all drosglwyddo ei rif i chi, **ac**
- os yw'r perchennog blaenorol yn cytuno i drosglwyddo'r rhif

Fel arfer **ni** chaniateir trosglwyddo'r rhif os yw'r canlynol yn berthnasol o ran y perchennog blaenorol:

- mae ganddo Asesiad Gordal sy'n parhau heb ei dalu neu sy'n destun apêl
- mae'n aelod o gofrestriad grŵp
- roedd wedi ei gofrestru ond nad oedd wedi gwneud cyflenwadau trethadwy.

Sut i wneud cais a phryd

Rhaid i chi a'r perchennog blaenorol gytuno i'r rhif gael ei drosglwyddo. Rhaid i'r **ddau** ohonoch lenwi a llofnodi'r ffurflen hon cyn gynted ag y caiff y busnes ei drosglwyddo a **chyn** i'r perchennog blaenorol ofyn i'w gofrestriad gael ei ganslo. Byddwn yn trin y ffurflen hon fel cais y perchennog blaenorol i ganslo ei gofrestriad.

Pwy sy'n gorfod llofnodi'r ffurflen

Rhaid i chi lenwi a llofnodi Rhan 1 a rhaid i'r perchennog blaenorol lenwi a llofnodi Rhan 2 o'r ffurflen hon.

Os ydych ond yn newid statws eich busnes, er enghraifft, o unig berchennog i gwmni cyfyngedig, efallai y bydd rhaid i chi lofnodi dwy ran y ffurflen os mai chi yw'r perchennog newydd a'r un blaenorol, neu os ydych yn eu cynrychioli.

Os yw hyn yn ymwneud a phartneriaeth, rhaid i **bob** partner lofnodi'r ffurflen.

Os oedd y perchennog blaenorol yn unig berchennog ac os yw wedi marw, neu yn achos partneriaeth ac mae un o'r partneriaid wedi marw, rhaid i'r ysgutor lofnodi'r ffurflen.

Yr hyn i'w wneud ar ôl i chi lenwi'r ffurflen

Rhaid i chi anfon y cais hwn i'r cyfeiriad a ddangosir ar flaen y ffurflen hon. Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, rhaid i chi hefyd anfon ffurflen VAT 1 newydd (a ffurflen VAT 2 os ydych yn bartneriaeth) i gwmpasu'r newid perchnogaeth hwn. Byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi a yw'ch cais wedi ei ganiatáu.

Os cewch unrhyw anhawster wrth lenwi'r ffurflen hon, neu os oes angen rhagor o gyngor arnoch, cysylltwch â'r swyddfa a ddangosir ar flaen y ffurflen hon.

Rhaid llenwi dwy ran y Ffurflen Gais hon

Rhan 1 I'w llenwi gan y perchennog newydd

Os mai chi yw'r endid cyfreithiol newydd neu berchennog newydd y busnes, darllenwch y ffurflen hon yn ofalus ac atebwch yr holl gwestiynau yn Rhan 1.

- 1.** Rhowch eich enw llawn, neu eich enw masnachu os oes gennych un
- 2.** Rhowch eich statws cyfreithiol, e.e. unig berchennog, partneriaeth, cwmni cyfyngedig
- 3.** Cymerais y busnes drosodd fel busnes byw ar

--	--	--	--	--	--
- 4.** Rhowch enw'r perchennog blaenorol
- 5.** Rwy'n gwneud cais i ddefnyddio rhif cofrestru TAW y perchennog blaenorol o'r dyddiad uchod. Y rhif yw

--	--	--	--	--	--	--	--
- 6.** Os caniateir y cais hwn, cytunaf i'r amodau canlynol:
 - Byddaf yn anfon fy Ffurflen TAW gyntaf i Gyllid a Thollau EM (CThEM), gyda'r holl TAW sy'n ddyledus am yr holl gyfnod a ddangosir ar y ffurflen.
 - Byddaf yn anfon unrhyw Ffurflenni TAW hwyr gan y perchennog blaenorol.
 - Byddaf yn talu CThEM unrhyw TAW sy'n ddyledus ar gyflenwadau a wnaed gan y perchennog blaenorol cyn i'r busnes gael ei drosglwyddo - gan gynnwys unrhyw TAW ar stoc ac asedion a gadwyd gan y perchennog blaenorol.
 - Rwy'n cytuno y caiff unrhyw Ffurflen TAW a llenwyd gan y perchennog blaenorol am gyfnod ar ôl y dyddiad trosglwyddo ei thrin fel pe bai wedi ei llenwi gennyf i.
 - Ni fydd gennyf hawl i hawlio unrhyw arian a dalwyd gan CThEM i'r perchennog blaenorol, cyn i'r rhif cofrestru TAW gael ei drosglwyddo.

Llofnodion

(Perchennog, partneriaid, cyfarwyddwr, ysgrifennydd y cwmni, ysgutor)

Dyddiad

--	--	--	--

Rhan 2 I'w llenwi gan y perchennog blaenorol

Os mai chi yw'r endid cyfreithiol blaenorol neu berchennog blaenorol y busnes, darllenwch y ffurflen hon yn ofalus ac atebwch yr holl gwestiynau yn Rhan 2.

- 1.** Rhowch eich enw llawn, neu eich enw masnachu os oes gennych un
- 2.** Rhowch eich statws cyfreithiol, e.e. unig berchennog, partneriaeth, cwmni cyfyngedig
- 3.** Trosglwyddais fy musnes / newidiais fy statws cyfreithiol ar

--	--	--	--	--	--
- 4.** Rhowch enw'r perchennog newydd;
- 5.** Hoffwn ganslo fy rhif cofrestru TAW o'r dyddiad uchod oherwydd nad wyf bellach yn agored nac yn gymwys i gael fy nghofrestru. Cytunaf i drosglwyddo fy rhif i'r perchennog newydd. Y rhif yw

--	--	--	--	--	--	--	--
- 6.** Os caniateir y cais hwn, cytunaf i'r amodau canlynol:
 - Ni fydd hawl gennyf i hawlio unrhyw arian a delir gan CThEM i'r perchennog newydd.
 - Rwy'n cytuno y bydd gan y perchennog newydd hawl i adennill unrhyw dreth fewnbwn y byddai CThEM fel arfer wedi ei thalu i mi pe na fyddai'r rhif wedi ei drosglwyddo a
- 7.** Rwyf wedi cadw stoc ac asedion sydd werth

--	--
- 8.** Rhowch enw a chyfeiriad lle y gallwn gysylltu â chi wedi i'r busnes gael ei drosglwyddo i'r perchennog newydd.

Llofnodion

(Perchennog, partneriaid, cyfarwyddwr, ysgrifennydd y cwmni, ysgutor)

Dyddiad

--	--	--	--

Rhestr wirio

- A yw'r cwestiynau i gyd wedi'u hateb yn gywir?
- A ydych chi a'r perchennog blaenorol wedi llofnodi'r ffurflen?
- A ydych eisoes wedi llenwi a dychwelyd ffurflen VAT 1 i gwmpasu'r newid perchenogaeth hwn? Os nad ydych wedi gwneud hyn, anfonwch hi gyda'r ffurflen hon. Ni ellir prosesu'ch cais am gael trosglwyddo'r rhif i chi heb fod VAT 1 gyda hi.
- A yw pob un o'r partneriaid wedi llofnodi'r ffurflen?
- A ydych wedi llenwi VAT 2 os ydych yn bartneriaeth?
- A ydych wedi cynnwys copi o'r dystysgrif ymgorffori os ydych yn gwmni cyfyngedig?
- A ydych wedi rhoi gwybod i CThEM, drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad ar dudalen 1, eich bod am ddefnyddio'r un cyfrifydd (neu asiant) ar gyfer gwasanaethau ar-lein â'r perchennog blaenorol?

Cofiwch

- Bydd eich cofrestriad yn cwmpasu'ch holl weithgareddau busnes.
- Byddwch yn atebol i dalu unrhyw TAW sy'n ddyledus ar gyflenwadau a wnaed gan y perchennog blaenorol, hyd yn oed os ydynt yn dod i'r golwg ar ôl y trosglwyddiad.
- Nid oes gan y perchennog blaenorol unrhyw hawl bellach i ad-daliadau TAW, hyd yn oed os yw'r ad-daliadau yn berthnasol i'r cyfnod cyn y trosglwyddiad.
- Os nad ydych yn bwriadu defnyddio cyfrifydd y perchennog blaenorol yna, er mwyn **sicrhau bod eich data wedi'u diogelu**, mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr bod y perchennog blaenorol a chyfrifydd yn cymryd camau bwriadol i ganslo mynediad y cyfrifydd at Wasanaethau TAW Ar-lein ar gyfer y rhif cofrestru hwn. Mae'n bosibl y bydd angen i chi gael cadarnhad gan y perchennog blaenorol bod y camau hyn wedi'u cymryd.
- Os ydych yn mynd i ddefnyddio cyfrifydd y perchennog blaenorol ar gyfer Gwasanaethau TAW Ar-lein, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni yn ysgrifenedig (gyda'r ffurflen hon os yn bosibl) cyn pen 21 diwrnod o lofnodi'r ffurflen hon.

Anfonwch eich ffurflen wedi'i llenwi i:

BT VAT
HM Revenue and Customs
BX9 1WR

Byddwn yn rhoi gwybod i chi os yw'ch cais i drosglwyddo'r rhif cofrestru wedi'i ganiatáu.

Sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth sydd gennym amdanoch

Mae Cyllid a Thollau EM yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys at ddibenion asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu yn unig, a hynny er mwyn gwneud y canlynol:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus.

Efallai y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gallai hynny gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis adrannau neu asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EM, oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.